# RICHARDS, JEDEDIAH (1784? - 1838), emynydd, a llyfrwerthwr teithiol, cymeriad hynod

**Enw:** Jedediah Richards
**Dyddiad geni:** 1784?
**Dyddiad marw:** 1838
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** emynydd, a llyfrwerthwr teithiol, cymeriad hynod
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Evan David Jones

a breswyliai dros y rhan fwyaf o'i oes yn Nhan-yr-esgair, Ffald-y-brenin, plwyf Llan-y-crwys, Sir Gaerfyrddin. Galwai ei hun yn ' Addysgwr Rhydd-ymarfer Cristnogaeth,' ac yn ' peripatetic philosopher.' Cyhoeddai faledi a llyfrynnau a gwerthai lyfrau a chrynhoi tanysgrifiadau at gyhoeddiadau a chylchgronau. Teithiodd yn helaeth yng Nghymru a chasglodd stôr o wybodaeth am lenyddiaeth Gymraeg. Dechreuodd gadw ysgol ganu o dan yr enw ' Christian Singing School ' yn Llanymddyfri, 29 Rhagfyr 1819. O 1821-3 ac yn ddiweddarach bu'n cadw'r hyn a elwid ganddo yn ' Ysgol er Rhydd-ymarfer Cristianogol ' yng Nghaerfyrddin a lleoedd eraill. Claddwyd ef ym mynwent S. Pedr, Llanbedr-Pont-Steffan, 9 Mawrth 1838, yn 54 oed. Ei waith cyhoeddedig cyntaf oedd *Hanes Crefyddau'r Byd* (Caerfyrddin, 1820). Cyhoeddodd ddalen, *Cyhoeddiad, neu Hyfforddiad ar Reolau yr Ysgol Ganu i Gristion* (Trefriw, 1821), a rhaglen ysgol, yn Aberystwyth tua 1824, o dan y teitl *A Publication of the Purposes and Articles of the Free Christian Practice School, in Sundry Places, by Jedeiah Richard, T - r. 1820. Cyhoeddiad o Reolau neu Hyfforddiadau yr Ysgol er Rhydd-Ymarfer Crist'nogaidd. Gan Jedeiah Richard, Ffald-y-Brenin, Hyfforddwr ac Addysgwr yr Ysgol er Rhydd-Ymarfer Cristianogol, yn Nghaerfyrddin a Lleoedd ereill, 1821, 1822, 1823* (pedwar tudalen). Yng Nghaerfyrddin yn 1825 cyhoeddodd gasgliad o hymnau, yn cynnwys rhai o'i waith ei hun, o dan y teitl *Diddanwch y Pererinion*. Priodolir y llyfrynnau canlynol iddo hefyd: *Cynghorion Da a Buddiol ... ynghyd a Hymnau*, (Caerfyrddin, 1823); *Marwnad David Evans, Morfa* (Caernarfon, 1825); *Marwnad ... Ebenezer Morris, Blaen y Wern, Troed yr Aur* (Caernarfon, 1825); *Golwg ar Ddrych y Greadigaeth* (Aberystwyth, 1826); *Hanes Ymneillduwyr Protestanaidd* (Caerfyrddin, 1826); *Palmer's Catechism* (Caerfyrddin, 1827); *Casgliad o Hymnau, sef Pleser y Pererinion* (Aberteifi, 1827); *Cofiant byr D. Dafis, Castell Hywel* (Caerfyrddin, 1827); *Hanes cywir am Lofruddiaeth Hannah Davies* (Aberystwyth, 1829); *Addysg ac Amddiffyniad* (Caerfyrddin, 1832); a *Marwnad Ebenezer Richards* (Caerfyrddin, 1837). Nai, fab brawd, iddo ydoedd Dr. Timothy Richard (1845 - 1919).

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Seren Gomer*, 1838, 157

*Cymru (O.M.E.)*, xxxiii, 18

*Y Diwygiwr*, 1838, 126

N.L.W., *Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898) (ychwanegiadau J.H.D.)

cofrestr plwyf Llanbedr

*NLW MS* 9721

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948), 54-5

*Y Tyst*, 10 Mai 1951


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748844


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu